Heads of the Valleys Waste Programme
Rhaglen Gwastraff Blaenau'r Cymoedd

Datganiad i'r Wasg

Mae prosiect i newid y ffordd y mae Cynghorau Torfaen, Blaenau Gwent a Chaerffili yn cael gwared â gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd preswylwyr wedi dechrau ar ei gam nesaf.

Mae Prosiect Organig Blaenau'r Cymoedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri chyngor lleol sy'n cydweithio i edrych ar yr opsiynau i atal anfon bwyd a gwastraff gardd i domen lanw.

Bydd eu gwaith yn helpu'r cynghorau i gyrraedd y targedau ailgylchu a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Heddiw, datgelodd y Cynghorydd Keith Barnes, cadeirydd y cydbwyllgor ac Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd Cyngor Blaenau Gwent fod y prosiect wedi cwblhau cam 'Gwahoddiad i Gyflwyno Datrysiadau Amlinellol' y broses gaffael ar gyfer contract hirdymor i ddelio gyda gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd.

Gwahoddwyd wyth cyfranogydd i'r cam 'Cyflwyno Datrysiadau Amlinellol' a chyflwynodd pump ddatrysiadau amlinellol i'w gwerthuso gan y Prosiect.

Cafodd y tri a gafodd sgôr uchaf eu gwahodd i gam 'Datrysiadau Manwl' y broses gaffael fydd yn dechrau yn yr ychydig wythnosau nesaf ac a ddaw i ben yn yr haf.

Y tri a gafodd wahoddiad i gyflwyno datrysiadau manwl yw New Earth Solutions Group, Shanks Waste Management Cyfyngedig a Viridor Waste Management Cyfyngedig.

Nod y cynghorau yw cyrraedd y cam cynigydd a ffafrir ym Mai 2012 - ac ar y cam hwn byddant yn gwybod pa safleoedd a thechnolegau gaiff eu defnyddio.

Dywedodd y Cynghorydd Barnes: "Mae'r prosiect wedi cynnal gwerthusiad eang o'r datrysiadau a gafwyd.

"Roedd hyn yn cynnwys y datrysiad technegol, cyflenwi gwasanaeth, effeithiau amgylcheddol a chynllunio a chaniatâd i'r datrysiad.

"Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau y caiff y cyfranogwyr sydd ar ôl gyflawni gofynion yr Awdurdodau, sicrhau safonau perthnasol Asiantaeth yr Amgylchedd a chynorthwyo i gyrraedd y targedau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru."

Caiff y caffaeliad ei gynnal drwy weithdrefn dialog cystadleuol mewn tri cham sef: Gwahoddiad i Gyflwyno Datrysiadau Ar-lein (ISOS), Gwahoddiad i Gyflwyno Datrysiadau Manwl (ISDS) a Galw am Dendrau Terfynol (CHF).

Mae gwybodaeth ar y prosiect ar gael yn www.hovwasteprogramme.org.uk